


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# SFS Opsiynol

# Grant Creu Coetir - Cais

## Defnyddio RPW Ar-lein i wneud cais

## Cynnwys


**PWYSIG** ..................................................3

**PWY SY'N GYMWYS I WNEUD CAIS AM SFS OPSIYNOL: GRANT CREU COETIR** ...3

**ADRAN 1 - DECHRAU ARNI** ..................................................4

RPW Ar-lein..................................................4

Yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir - Cais ..................................................4

**ADRAN 2 – GOLWG AR Y BOTYMAU RHEOLI** ..................................................6

**ADRAN 3 – Y CAIS** ..................................................7

Dechrau ar y Cais..................................................7

Cyflwyniad ..................................................8

Hysbysiad Preifatrwydd ..................................................9

Statws y Plan..................................................10

Plan o'r Coetir..................................................11

Ychwanegu'r safleoedd plannu rydych wedi'u dewis at eich cais..................................................11

**ADRAN 4 – CYFLWYNO** ..................................................14

Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb..................................................14

Datganiadau ac Ymrwymiadau..................................................16

Tudalen Gyflwyno..................................................17

**ADRAN 5 - BETH I'W WNEUD AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN YN LLWYDDIANNUS**..................................................18

Tystiolaeth Ddogfennol..................................................18

Newid ac Ychwanegu ..................................................18

Tynnu'ch Cais yn ôl ..................................................18


© Hawlfraint y Goron 2026 ISBN digidol: 978-1-80853-043-2

# SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir – Cais

## Defnyddio RPW Ar-lein i wneud cais

**PWYSIG**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau manwl, gam wrth gam ynghylch sut i gwblhau cais SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllaw yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gopi o'r canllaw hwn yn yr iaith arall, gallwch fynd ati o llyw.cymru trwy glicio ar y dewisydd iaith ar dop y dudalen ac ailagor y ddogfen.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

**PWY SY'N GYMWYS I WNEUD CAIS AM SFS OPSIYNOL: GRANT CREU COETIR**


Mae'r SFS OpsiynolL Grant Creu Coetir ar gael drwy RPW Ar-lein i ffermwyr a pherchenogion tir sy'n cymryd rhan yn yr SFS, sydd â chynllun creu coetir gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cais llwyddiannus i'r Cynllun Peilot Cynllunio Creu Coetir (WCPPS) neu'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS).

Caiff cwsmeriaid nad ydyn nhw eto wedi ymuno â'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPSwneud hynny unrhyw bryd.  Mae rheolau ac amodau ymuno'r WCPS i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn Llyw.Cymru/Cynllun Cynllunio Creu Coetir

## ADRAN 1 - DECHRAU ARNI

### RPW Ar-lein

Logiwch i mewn i'ch Cyfrif RPW Ar-lein - nodwch eich **ID Defnyddiwr** a'ch Cyfrinair **Porth y Llywodraeth** yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein. Bydd y dudalen hon yn dangos gwybodaeth a negeseuon yr ydych wedi'u derbyn neu eu hanfon, a byddwch yn gallu dechrau llenwi a chyflwyno unrhyw geisiadau sydd ar gael.

### Yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir - Cais

I ddechrau’ch cais SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir, cliciwch ar gwymplen y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** a dewiswch **Dangosfwrdd Hanes Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:**



O’r rhestr o Gategorïau a welwch ar y sgrin, dewiswch Creu Coetir:







Yn y blwch *Ceisiadau yn y Categori hwn*, sgroliwch i *Haen Opsiynol yr SFS: Grant Creu Coetir* a chliciwch ar **Parhau**



## ADRAN 2 – GOLWG AR Y BOTYMAU RHEOLI


Dyma olwg ar y botymau rheoli sy'n ymddangos ar bob tudalen. Bydd angen i chi eu defnyddio i lenwi'ch cais:

| | |
|---|---|
|  | Ar ochr chwith isa’r dudalen. Bydd y botwm hwn yn gadael i chi newid iaith eich cais. |
|  | Ar ochr chwith ucha’r dudalen.  Bydd y botwm hwn yn mynd â chi at ddogfen D*efnyddio RPW Ar-lein i wneud cais* y cynllun*.* |
|  | Ar ochr dde uchaf ac ochr dde isa’r dudalen. Bydd y botymau hyn yn mynd â chi yn ôl ac ymlaen rhwng tudalennau'ch cais. |
|  | Ar ochr chwith isa’r dudalen. Bydd y botwm hwn yn gadael i chi argraffu ciplun o'ch cais fel y mae. **Pwysig**: Ni fyddwn yn derbyn copïau wedi'u hargraffu o'ch cais. |
|  | Ar ochr dde uchaf ac ochr dde isa’r dudalen. Cliciwch ar y botwm hwn i gadw unrhyw newidiadau. Gallwch hefyd glicio'r botwm hwn i weld a yw’r newidiadau rydych wedi’u gwneud yn dderbyniol. |
|  | Ar ochr chwaith isa’r dudalen. Cliciwch arno i adael eich cais. Bydd newidiadau’n cael eu cadw yn awtomatig. |
| <br><br><br> | Mae'r arwyddion hyn yn ymddangos wrth ochr pob adran o'ch cais, ar ochr chwith y dudalen.<br><br>Mae'r tic gwyrdd yn ymddangos os ydy’r wybodaeth mewn adran yn dderbyniol.<br><br>Mae'r groes goch yn ymddangos os oes adran/tudalen heb ei gweld eto, neu os oes angen cywiro camgymeriad.<br><br>Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn ymddangos os oes neges gwybodaeth wedi’i chreu am fod newid wedi’i wneud i’r ffurflen. |

# ADRAN 3 – Y CAIS

## Dechrau ar y Cais

Ar ôl dechrau ar eich cais, fe welwch y dudalen ganlynol.




Cyn cychwyn, cadarnhewch fod eich manylion yn gywir. Os oes angen, gallwch eu newid drwy glicio ar **Fanylion y Cwsmer** neu **Dewisiadau Ar-lein**.

Os yw'r manylion sy'n cael eu dangos yn gywir, dewiswch y botwm **Dechrau**. Bydd hyn yn eich arwain at sgrin y Cyflwyniad.

Pwysig: Os byddwch yn gadael cais ar ei hanner, caiff y newidiadau eu cadw i chi allu ei orffen wedyn. Pan ewch yn ôl ato, bydd y dudalen **Parhau â chais** yn ymddangos. Ond bydd opsiwn i ailddechrau trwy glicio ar **Ddechrau Eto.** Bydd hynny'n dileu'ch cais presennol a gallwch ddechrau'r broses gyflwyno eto.



## Cyflwyniad

Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig i chi am eich cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu darllen yn ofalus cyn dechrau.

Mae dolen arni hefyd i fynd â chi at y **Llyfryn Rheolau** a'r **Canllaw Sut i Lenwi** perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.





Ar ôl i chi ddarllen a deall y Llyfryn Rheolau, cliciwch ar **Nesaf** i symud ymlaen at sgrin nesaf y cais.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r sgrin hon yn dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru'n trafod yr wybodaeth y byddwch yn ei chyflwyno fel rhan o'ch cais..

Gofalwch eich bod yn darllen ac yn deall sut y bydd eich data'n cael eu defnyddio.



SFS Opsiynol : Grant Creu Coetir

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Statws y Plan ×
- Plan o'r Coetir ×
- Cyflwyno

Printio English

Hysbysiad Preifatrwydd

Yn ôl | Safio | Nesaf

### Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiol gynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisïau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod â darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod â darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Er mwyn asesu a ydych yn gymwys efallai y bydd angen i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais gydag awdurdodau Rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Diogelu Data 2018 neu Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.


**Statws y Plan**

Mae’r dudalen hon yn gofyn ichi gadarnhau a oes newidiadau wedi’u gwneud i’ch cynllun creu coetir ers iddo gael ei gymeradwyo o dan WCPS a gallwch hefyd nodi eich bwriad i hawlio taliad Gwaith Sylfaen.

Yn ogystal, os ydych wedi nodi ar eich Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y WCPS bod eich cais yn rhan o gynllun cydweithredu cymeradwy, bydd angen i chi gadarnhau manylion y cydweithredu ac a oes gennych y rheolaeth reoli briodol ar gyfer y tir sydd i’w blannu. Os nad yw eich cais yn rhan o gynllun cydweithio, ni fydd y cwestiynau hyn yn ymddangos ar eich sgrin.

Nodwch fod pob cwestiwn yn orfodol.

Os oes angen ichi roi mwy o wybodaeth wrth ateb cwestiwn, fe welwch flwch testun ar y sgrin i chi gael rhoi’r wybodaeth ynddo. Wrth roi manylion unrhyw newid, cofiwch roi rhif y ddalen a rhif y cae a rhif adnabod unigryw y plan gafodd ei gymeradwyo.



## Plan o’r Coetir


Bydd y dudalen Cynllun Coetir yn dangos rhestr o’r holl eitemau plannu, a gymeradwywyd ar eich Plan Creu Coetir. Bydd angen i chi ddewis pa safleoedd plannu rydych am eu cynnwys yn eich cais i ni allu ystyried eu cefnogi o dan yr SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir yn ystod y ffenestr yma. Os oes unrhyw ffensio, gatiau neu opsiynau dŵr yn gysylltiedig â’r plannu rydych yn ei ddewis, caiff y rhain hefyd eu ychwanegu at eich cais yn awtomatig.

Cofiwch nad oes angen i chi gynnwys pob eitem plannu sydd wedi’i chymeradwyo ar eich plan mewn un ffenestr ymgeisio gan fod gennych bum mlynedd o ddyddiad cymeradwyo’r Plan Creu Coetir i gwblhau’r holl waith. Bydd unrhyw eitemau na fyddwch yn eu cyflwyno ar eich cais ar gael o hyd fel y gallwch eu cyflwyno eto o fewn ffenestr ymgeisio’r SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir yn y dyfodol, neu yn ystod yr un ffenestr os ydych yn dymuno gwneud hynny. Eto i gyd, mae’n rhaid i’r cais fodloni holl ofynion y cynllun cyn i chi ei gyflwyno:


- Dim ond darnau o dir sydd wedi’u cymeradwyo ar gyfer eu plannu a’u ffensio/gatiau gan Lywodraeth Cymru o dan y Cynllun Cynllunio Creu Coetir fydd yn gymwys.
- Rhaid i’ch cais fod ar gyfer o leiaf 0.25ha o goetir cymeradwy.
- Ni chaniateir newid safle plannu cymeradwy cyn gwneud cais am grant os gallai’r newid effeithio ar y safle sydd wedi’i gymeradwyo.

<u>Ychwanegu’r safleoedd plannu rydych wedi’u dewis at eich cais</u>

- Cliciwch ar y botwm **Addasu** wrth y safle plannu rydych wedi’i ddewis.




Bydd manylion yr eitem rydych yn ei dewis yn llwytho gan ddangos ID unigryw, Cod Opsiwn, Categori Coetir, map o'r lleoliad a'r arwynebedd sydd wedi'i fesur. Ticiwch y blwch **Wedi'i Ddewis** i'w ychwanegu at eich cais




Nodyn: Caiff unrhyw ffens neu gatiau cysylltiedig eu dangos o dan manylion yr arwynebedd plannu ar y sgrin yma a caiff ei ychwanegu'n awtomatig pan yn dewis i ychwanegu arwynebedd o blannu.

- I gadw'ch newidiadau, cliciwch **Cadw a Dychwelyd.**
- Byddwch yn mynd yn ôl i'r crynodeb o'ch Plan o'r Coetir. Bydd tic gwyrdd yn ymddangos yn y golofn **Wedi'i Ddewis** wrth yr eitem rydych wedi'i dewis ar gyfer ei phlannu.



- Cariwch ymlaen i ychwanegu rhagor o eitemau plannu, ar gyfer eu cynnwys yn eich cais.


- I ddileu eitemau sydd wedi'u cynnwys, cliciwch **Addasu** wrth yr eitem berthnasol. Tynnwch y tic o'r blwch **Wedi'i ddewis** a chliciwch **Cadw a Dychwelyd** i'w dileu o'r cais.

- Pan fyddwch wedi gorffen ychwanegu eitemau at eich cais cliciwch **Nesaf** i fynd i'r adran nesaf.

## ADRAN 4 – CYFLWYNO


### Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae manylion eich cais wedi'u crynhoi ar y dudalen hon, gan gynnwys eich atebion i'r cwestiynau amrywiol, a'r darnau o dir rydych am blannu coetir arnynt rydych wedi'u hychwanegu.





Bydd unrhyw broblemau sydd wedi dod i'r amlwg yn eich cais yn ymddangos yn y blwch Camgymeriadau a Gwybodaeth ar frig y sgrin. Sgroliwch i lawr y dudalen i weld manylion y camgymeriadau.

Gallwch fynd yn ôl i dudalennau blaenorol eich cais i wirio a chywiro problemau drwy glicio ar y botwm **Yn ôl** neu ddewis y dudalen briodol ar ochr chwith y sgrin.  (Bydd croes goch wrth ochr bob tudalen sydd â phroblem.)



## Datganiadau ac Ymrwymiadau

Pan fydd yr holl gamgymeriadau wedi'u cywiro, gallwch fynd i'r dudalen Datganiadau ac Ymrwymiadau. Gofalwch eich bod wedi darllen y **Datganiadau a'r Ymrwymiadau** yn fanwl a'ch bod yn eu deall, cyn cyflwyno'ch cais..



SFS Opsiynol : Grant Creu Coetir

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Statws y Plan ✓
- Plan o'r Coetir ✓
- Cyflwyno
  - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb
  - Datganiadau ac Ymrwymiadau
  - Cyflwyno

Datganiadau ac Ymrwymiadau

Yn ôl | Safio | Nesaf

Os ydych yn derbyn y datganiadau a'r ymrwymiadau, ticiwch y bocs.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall Rheolau a Nodiadau Canllaw perthnasol y Cynllun ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddefnyddio fy ngwybodaeth i gefnogi fy nghais.

Rwy'n datgan na fyddai'r prosiect yn cael ei gynnal oni bai am y grant y gofynnir amdano ac mai'r grant y gofynnir amdano yw'r lleiaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect allu mynd rhagddo.

Rwy'n addo ysgwyddo unrhyw ymrwymiadau statudol fel Iechyd a Diogelwch; cyflogaeth; hylendid; rheoli a diogelu'r amgylchedd; iechyd a lles anifeiliaid a chnydau sy'n gymwys yn ystod oes y prosiect.

Rwy'n deall efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau i adlewyrchu newidiadau a wneir i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rwy'n cytuno i gadw at unrhyw newidiadau ar ôl i Weinidogion Cymru roi gwybod imi amdanynt.

Rwy'n cytuno i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau neu reoliadau neu gyfarwyddebau domestig neu ryngwladol perthnasol.

Mae'r manylion rwyf wedi'u rhoi ar y cais hwn ac mewn dogfennau ategol yn wir, cywir a chyflawn hyd eithaf fy ngwybod a'm cred.

Rwy'n cadarnhau fod yr holl fanylion oedd wedi'u llenwi ymlaen llaw yn gywir a'u bod wedi'u cywiro os oeddynt yn anghywir.

Rwy'n ymrwymo i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau rwyf am eu gwneud i natur neu adeiladwaith y prosiect hwn cyn eu rhoi ar waith.

Rwy'n ymrwymo i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw gais am grant arall a wneir ar gyfer y prosiect hwn.

Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw waith wedi'i wneud ar y prosiect hwn ar wahân i waith ymgynghori, prynu safleoedd, cael dyfynbrisiau, a llunio cynlluniau safle.

Rwy'n cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru nac unrhyw gynghorydd a benodir gan Lywodraeth Cymru yn atebol am unrhyw gyngor a roddir, gan gynnwys unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r cais neu'r cynllun datblygu busnes hwn, ac mai y fi yn unig sy'n gyfrifol am y penderfyniadau busnes a wneir.

Rwy'n ymrwymo i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i'r manylion a roddir yn adran 'Manylion yr Ymgeisydd' y ffurflen.

Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru'n dangos negeseuon 'Camgymeriad' a 'Gwybodaeth' yn y cais fel cymorth yn unig ar gyfer llenwi a chyflwyno'r cais.

Byddaf yn caniatáu swyddogion Llywodraeth Cymru neu eu hasiant awdurdodedig, i fynd ar dir i'w archwilio ac i archwilio unrhyw offer, cyfleusterau a'r holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen i gadarnhau fy mod yn gymwys a bod yr wybodaeth a ddarparwyd at ddiben gwneud y cais hwn yn gywir.

**Rwy'n cytuno i:**

Peidio â gwneud gwaith cyn ymuno â'r Cynllun Troi'n Organig sy'n niweidio'r amgylchedd ac yn deall y gallai camau o'r fath arwain at wrthod fy nghais.

Rwy'n cytuno i gynnal yswiriant digonol i ymdrin â'r risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd a gynhelir wrth gyflawni'r Dibenion. Rydym yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol i chi ddangos prawf o'ch yswiriant.

**Deallaf:**

Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru rannu rhywfaint o wybodaeth am fy nghais Cynllun Troi'n Organig gyda sefydliadau eraill ac rwy'n cytuno i unrhyw ddatgeliadau neu gyfnewid gwybodaeth angenrheidiol.

Gall Llywodraeth Cymru gael gwybodaeth amdanaf hefyd gan sefydliadau eraill, a rhoi gwybodaeth amdanaf iddynt, er mwyn cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth, atal neu ganfod troseddau a diogelu arian cyhoeddus. Mae'r sefydliadau eraill hyn yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff eraill yn ôl y gofyn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn unol â'i rhwymedigaethau a'i dyletswyddau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Gellir datgelu gwybodaeth arall a ddarperir hefyd pan ganiateir hynny gan y gyfraith.

**RHYBUDD - Gall person sy'n gwneud datganiad ffug neu nad yw'n rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pan fydd gwybodaeth a roddwyd yn y cais hwn yn newid mewn ffordd berthnasol gael ei erlyn. Gallai datganiad ffug, anghywir neu angyflawn neu fethiant i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am newid perthnasol i wybodaeth a roddwyd yn y cais hwn arwain at derfynu'r contract a/neu at orfod ad-dalu unrhyw daliadau.**

Rwyf yn cytuno i'r datganiadau a'r ymrwymiadau uchod * ☑

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

Pan fyddwch wedi darllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau, bydd angen i chi roi tic yn y blwch **Rwyf yn cytuno i'r datganiadau a'r ymrwymiadau uchod.**


Pan fyddwch wedi gwneud hynny, dewiswch 'Nesaf' i fynd i'r dudalen Gyflwyno.

## Tudalen Gyflwyno

Cliciwch i **gyflwyno**'ch cais SFS Opsiynol: Grant Creu Coetir.




Ar ôl ei chyflwyno’n llwyddiannus, fe welwch y neges hon:



## ADRAN 5 - BETH I'W WNEUD AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN YN LLWYDDIANNUS

Bydd crynodeb o'ch cais yn cael ei hychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru**. Gofalwch fod yr wybodaeth arni'n gywir. Os oes gwybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i'r Neges yn esbonio beth sy'n bod. Gwnewch hyn cyn gynted ag y medrwch ar ôl gweld yr wybodaeth anghywir.

Am gyngor ar sut i ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon', ewch i llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen **Sut i ddefnyddio RPW Ar-lein** o'r ddewislen ar yr ochr dde.

- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid', 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol yn gweithio ar ran Cwsmeriaid', yna dewiswch **Negeseuon** o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.

### Tystiolaeth Ddogfennol

Os hoffech gyflwyno'ch tystiolaeth ddogfennol ar-lein, defnyddiwch y dudalen **Negeseuon**. Atodwch yr holl ddogfennau i'r un neges er mwyn inni allu delio â'r cyfan dan un cyfeirnod.

### Newid ac Ychwanegu

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais, fe welwch efallai fod angen newid neu ychwanegu manylion. Defnyddiwch y dudalen **Negeseuo**n i wneud hyn. Cliciwch ar y neges a gawsoch pan gyflwynoch chi'ch cais. Yna atodwch fanylion eich newid a/neu ddogfennau ychwanegol (os yn berthnasol) i'r un neges hon, er mwyn inni allu delio â'r cyfan dan yr un Cyfeirnod.

### Tynnu'ch Cais yn ôl

Os am dynnu'ch cais yn ôl wedi i chi ei gyflwyno ar-lein, ewch i'ch tudalen **Negeseuon**. Cliciwch ar y neges a gawsoch pan gyflwynoch chi'ch cais. Nodwch ar y neges hon eich bod am ei dynnu yn ôl (gan atodi unrhyw wybodaeth berthnasol), er mwyn inni allu delio â'r cyfan dan un Cyfeirnod.